**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**BIL YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL, TROSEDDU A PHLISMONA**

**DARPARIAETHAU SY'N YMWNEUD AG ADENNILL MEDDIANT O DAI ANNEDD**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sy'n dod o fewn, neu sy'n addasu, cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

2. Cyflwynwyd y Bil Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 9 Mai 2013, ac fe'i gwelir yn: Bill Documents – Anti-social Behaviour, Crime and Policing Bill 2013-14 – UK Parliament Website

**Crynodeb o'r Bil a'r Amcanion Polisi**

3. Y Swyddfa Gartref sy'n noddi'r Bil. Amcanion polisi Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw creu pwerau newydd a symlach i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, annog perchnogion cŵn cyfrifol, mynd i'r afael â gangiau a grwpiau troseddu cyfundrefnol sy'n defnyddio arfau tanio anghyfreithlon, sicrhau bod priodas dan orfod yn anghyfreithlon a diwygio safonau proffesiynol yr heddlu.

4. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer crynhoi'r 19 o orchmynion presennol yn 6 gorchymyn newydd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol; yn galluogi dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd; yn caniatáu ar gyfer adfeddiannu tenantiaethau diogel yn orfodol os yw'r tenant yn torri un o'r gorchmynion newydd; yn diwygio Deddf Cŵn Peryglus 1991 er mwyn ehangu ei darpariaethau i eiddo preifat; yn cynyddu'r uchafgosb am fewnforio ac allforio arfau tanio; yn creu trosedd newydd o fod yn berchen ar arfau tanio i'w gwerthu neu drosglwyddo; yn gwneud priodas dan orfod yn anghyfreithlon; yn creu Coleg Plismona newydd, a hefyd yn gwneud darpariaethau sy'n ymwneud â rheolaethau ariannol ar brif gwnstabliaid ac ymestyn pwerau a chylch gwaith Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu.

**Y darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer**

**Rhan 5 – Adennill meddiant o dai preswyl: ar sail ymddygiad gwrthgymdeithasol**

5. Mae'r darpariaethau yn Rhan 5 y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer yn ymwneud ag adennill meddiant o dai annedd sy'n destun naill ai tenantiaeth ddiogel neu sicr ar sail ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Tenantiaethau Diogel**

6. Mae Cymal 86 o'r Bil yn cyflwyno sail absoliwt newydd ar gyfer meddiannu annedd sy'n destun tenantiaeth ddiogel. Ar y cyfan, tenantiaid awdurdod lleol yw'r mwyafrif o denantiaid diogel er bod gan landlordiaid cymdeithasol eraill (Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig) denantiaid diogel hefyd.

7. Mae isadran (1) o Gymal 86 yn cyflwyno adran 84A newydd yn Neddf Tai 1985 ("Deddf 1985") sy'n nodi y bydd hi'n ofynnol i'r llys ganiatáu meddiant os bydd un o'r pum amod yn adran 84A newydd yn cael ei fodloni, os yw'r gofynion hysbysu wedi'u bodloni a, lle bo'n berthnasol, os dilynwyd y gweithdrefnau adolygu. Mae'r adran 84A(1) newydd yn egluro bod hyn yn amodol ar unrhyw amddiffyniad sy'n seiliedig ar hawliau Confensiwn y tenant o fewn ystyr Deddf Hawliau Dynol 1998.

8. Yr amodau yw bod y tenant, aelod o aelwyd y tenant neu unigolyn sy'n ymweld â'r eiddo:

   - wedi'i ddyfarnu'n euog o drosedd ddifrifol (sef un o'r troseddau a nodir yn Atodlen 2A newydd i Ddeddf 1985 a fewnosodwyd gan isadran 2 o Gymal 86 ac Atodlen 3 i'r Bil).
   - wedi'i ddyfarnu gan lys o fod wedi torri gwaharddeb atal niwsans ac annifyrrwch
   - wedi'i ddyfarnu'n euog o dorri gorchymyn ymddygiad troseddol.

   Rhaid i'r drosedd neu'r ymddygiad gwrthgymdeithasol fod wedi'i gyflawni yn y tŷ annedd neu'n ardal y tŷ annedd, fod wedi effeithio ar unigolyn sydd â hawl i fyw yn ardal y tŷ annedd neu fod wedi effeithio ar y landlord neu unigolyn sy'n gysylltiedig â swyddogaethau rheoli tai'r landlord. Dyma'r amodau eraill:

   - bod eiddo'r tenant wedi bod yn destun gorchymyn cau lle bo cyfanswm y cyfnod cau yn fwy na 48 awr; neu
   - fod y tenant, aelod o aelwyd y tenant neu unigolyn sy'n ymweld â'r eiddo wedi'i ddyfarnu'n euog o dorri hysbysiad neu orchymyn i leihau sŵn mewn perthynas ag eiddo'r tenant o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

9 Mae'r adran 84A newydd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddiwygio drwy orchymyn Atodlen 2A newydd i Ddeddf 1985 drwy ychwanegu

troseddau ditiol neu ddileu trosedd. Byddai unrhyw orchymyn o’r fath yn destun gweithdrefn negyddol y Cynulliad.

10. Mae Cymal 87 yn mewnosod adran 83ZA newydd yn Neddf 1985 sy’n nodi’r gofynion rhybudd lle bo landlord tenant diogel yn dymuno cael meddiant oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y sail absoliwt oherwydd eu bod yn credu na fodlonwyd un neu fwy o’r amodau yn adran 84A newydd o Ddeddf 1985. Mae’r adran newydd yn pennu’r isafswm rhybudd y mae’n rhaid i’r landlord roi i’r tenant sydd â thenantiaeth gyfnodol a’r terfynau amser ar gyfer cychwyn achosion cymryd meddiant. Mae hefyd yn nodi’r terfynau amser ar gyfer cyflwyno hysbysiad yn sgil collfarn, dyfarniad y llys neu gau adeilad neu derfyn unrhyw broses apêl.

11. Mae Cymal 88 yn mewnosod adran 85ZA newydd yn Neddf 1985 ac yn darparu’r hawl i denantiaid diogel awdurdodau tai lleol fynnu adolygiad o benderfyniad y landlord i feddiannu ar y sail absoliwt. Rhaid i’r landlord adolygu’r penderfyniad os yw’r tenant yn gofyn am hynny. Mae adran 85ZA newydd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy’n cyflwyno’r weithdrefn ar gyfer cynnal adolygiadau o’r fath. Byddai’r rheoliadau hyn yn destun gweithdrefn negyddol y Cynulliad.

**Tenantiaethau Sicr**

12. Mae Cymal 89 yn diwygio Atodlen 2 i Ddeddf Tai 1988 (“Deddf 1988”) er mwyn cyflwyno sail absoliwt newydd ar gyfer cymryd meddiant (Sail 7A) yn achos tenantiaid sicr h.y. tenantiaid sy’n rhentu eiddo gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Mae’r sail ar gyfer cymryd meddiant yr un fath â’r rhai ar gyfer tenantiaid diogel yng nghymal 86 ac yn destun unrhyw amddiffyniad sydd ar gael sy’n seiliedig ar hawliau Confensiwn y tenant. Mae isadran (2) o Gymal 89 yn diwygio adran 8 o Ddeddf 1988 er mwyn addasu’r gofynion hysbysu ar gyfer cymryd meddiant ar gyfer tenantiaethau sicr er mwyn ystyried y Sail 7A newydd. Mae’n gosod y terfynau amser ar gyfer cyflwyno hysbysiadau dan Sail 7A.

13. Mae Cymal 90 yn diwygio’r seiliau disgresiynol cyfredol dros geisio meddiant (Sail 2 yn Atodlen 2 i Ddeddf 1985 a Sail 14 yn Atodlen 2 i Ddeddf 1988) fel eu bod hefyd yn berthnasol i achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol y tu allan i ardal y tŷ annedd. Mae’r diwygiadau yn caniatáu i landlord wneud cais i feddiannu eiddo tenant diogel neu sicr neu lle bo’r tenant neu unigolyn sy’n byw neu’n ymweld ag eiddo’r tenant wedi’i gael yn euog o ymddwyn mewn modd sy’n debygol o greu niwsans neu annifyrrwch i’r landlord, neu i unigolyn wedi’i gyflogi i gyflawni swyddogaethau rheoli tai’r landlord.

14. Fel gyda’r sail gyfredol dros geisio meddiant oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae Cymal 92 yn diwygio adran 138 o Ddeddf 1985 fel nad oes dyletswydd ar landlord i drosglwyddo’r rhydd-ddaliad neu roi prydles i denant a wnaeth gais i arfer yr hawl i brynu, os oes achos ar y sail absoliwt oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol ar fin mynd gerbron llys. Bydd y diwygiadau a wneir gan y cymal hwn hefyd yn golygu y gall

landlord wrthod caniatáu i denant gymryd rhan mewn trefniant cydgyfnewid o dan Ddeddf 1985 (sy'n berthnasol i denantiaid sicr) neu drosglwyddo tenantiaeth o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 (sy'n berthnasol i denantiaid diogel a sicr penodol). Gall landlordiaid eisoes wrthod rhoi caniatâd lle ceisir meddiant ar sail ddisgresiynol oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol.

15. Mae Cymal 137(3) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud unrhyw ddiwygiadau canlyniadol i ddarpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn unrhyw un o Ddeddfau neu Fesurau neu Ddeddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, neu a wnaed oddi tanynt. Dim ond mewn perthynas â'r cymalau hynny y mae gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol drostynt y gellir gwneud diwygiadau canlyniadol. Rhaid gwneud diwygiadau o'r fath drwy Orchymyn sy'n destun gweithdrefn gadarnhaol y Cynulliad.

16. Mae Cymal 141 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gychwyn trwy Orchymyn y cymalau hynny y mae gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol drostynt ar ba bynnag ddiwrnod neu ddiwrnodau a bennir ganddynt. Gall Gweinidogion Cymru wneud unrhyw ddarpariaethau arbed, trosiannol neu ddarfodol sy'n briodol yn eu barn nhw wrth ddod â'r cymalau hynny i'r rym. Ni fyddai'r Gorchymyn hwn yn destun gweithdrefn y Cynulliad.

17 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn fod y darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraffau 5 i 16 yn dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol fel y'i nodir ym Mhwnc 11 (Tai) o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Manteision defnyddio'r Bil hwn yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad**

18 Bydd defnyddio'r Bil y DU hwn yn sicrhau bod pwerau cyson ar gael ar draws Cymru a Lloegr yr un pryd. Roedd canlyniadau'r ymgynghoriad yn dangos bod rhanddeiliaid yng Nghymru yn awyddus i gael yr un dulliau â Lloegr er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, a dyma'r ffordd gyflymaf ar hyn o bryd o sicrhau eu bod ar gael er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fwy effeithiol.

**Goblygiadau ariannol**

19 Ni rhagwelir y bydd darpariaethau perthnasol y Bil hwn na ellir eu hymgorffori fel rhan o rwymedigaethau cyfredol yn creu goblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru.

20. Gall fod dyletswyddau ychwanegol ar lefel awdurdodau lleol a chymdeithasau tai pan fo landlordiaid cymdeithasol yn dewis defnyddio'r pwerau.

**Carl Sargeant AC**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Mai 2013**